


# CCA16

## CYFLEUSTERAU ADDYSGOL A DATBLYGIADAU PRESWYL (2021)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

# Canllawiau Cynllunio Atodol 16

## CYFLEUSTERAU ADDYSGOL A DATBLYGIADAU PRESWYL (2021)

Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw ymhelaethu ar bolisi cynllunio presennol y Cyngor ar gyfleusterau addysgol sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Maen nhw'n amlinellu sut y bydd y Cyngor, lle y bo'n briodol, yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu neu wella cyfleusterau addysg ac ysgol fel rhan o ddatblygiadau preswyl newydd ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Lluniwyd y ddogfen hon o ganlyniad i gydweithrediad agos rhwng Cyfarwyddiaeth Cymunedau a Chyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd y Cyngor, a bydd y ddwy yn cyfrannu at y trafodaethau ar gyfer darparu cyfleusterau addysgol drwy'r system gynllunio.

Bydd y CCA hyn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys ceisiadau i adnewyddu caniatâd.

Byddai'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n bwriadu cyflwyno cais am ddatblygiad preswyl yn y Fwrdeistref Sirol i ystyried y CCA hyn ac i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno cais i drafod y materion a godir yn y ddogfen hon mewn perthynas â'r safle penodol sydd mewn golwg.

**CYNNWYS**


| Adran | Rhif Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Cefndir | 3 |
| 3. Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi | 4 |
| 4. Darpariaeth Addysg | 7 |
| 5. Cyfraniadau Datblygwyr | 10 |
| 6. Cyfrifo'r Gofyniad | 14 |
| 7. Gweinyddu'r Polisi | 15 |
| Atodiadau | 18 |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r canllawiau cynllunio atodol (CCA) hyn yn egluro'n fanwl sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ddarparu cyfleusterau addysgol ac yn amlinellu sut y bydd y Cyngor, lle y bo'n briodol, yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu neu wella cyfleusterau addysg ac ysgol fel rhan o ddatblygiadau preswyl newydd ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. O'u mabwysiadu, bydd eu cynnwys yn cael ei ystyried fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys ceisiadau i adnewyddu caniatâd.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn nifer fawr o geisiadau bob blwyddyn ar gyfer datblygiadau tai newydd. Mae'r preswylwyr newydd hyn yn creu galw am le mewn ysgolion ac o ganlyniad, efallai y bydd angen cyfleusterau addysgol newydd neu welliannau i'r ddarpariaeth bresennol. Er mwyn sicrhau nad yw cymunedau o dan anfantais a bod darpariaeth addysgol ddigonol a boddhaol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a ddaw yn sgil datblygiadau newydd, bydd y Cyngor, lle y bo'n briodol, yn ceisio cyfraniadau tuag at ddarparu neu wella cyfleusterau addysgol. Er mwyn bodloni'r galw hwn, mae Polisi COM10 o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys gofyniad i ddarparu Cyfleusterau Addysgol a Hyfforddiant.

2.2 Mae'r cyfleusterau newydd neu estynedig a nodir ym Mholisi COM10 yn rhan o Raglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor. Bydd y rhaglen hon yn sicrhau gwelliannau i ddarpariaeth ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn broses sy'n esblygu, a gall cynigion eraill sy'n seiliedig ar angen addysgol ddod yn flaenoriaethau yn ystod oes y CDLl. Er mwyn helpu i gyflawni'r cynigion a nodir ym Mholisi COM10 ac anghenion addysgol eraill a allai godi, mae Polisi SP14 - Seilwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai newydd gyfrannu, lle y gellir cyfiawnhau hynny, at gyfleusterau addysgol newydd.

2.3 Mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n bwriadu cyflwyno cais am ddatblygiad preswyl o fewn y Fwrdeistref Sirol i ddarllen y CCA hyn. Er mwyn trafod unrhyw faterion mewn perthynas â safle penodol, gall gysylltu â'r Cyngor Bwrdeistref Sirol cyn gwneud cais cynllunio i gael trafodaethau cyn ymgeisio (gweler Adran 7 ar ddiwedd y CCA).

## 3. CYD-DESTUN DEDDFWRIAETH A PHOLISI

3.1 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ymhellach nawr ac yn y tymor hwy. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i “weithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain”. Yn sail i'r Ddeddf mae saith nod llesiant, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd ati i'w cyflawni (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy’n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang).

3.2 **Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr 2018 – 2023**: Mae'r Cynllun Llesiant (y Cynllun) yn amlinellu sut y bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Cynllun wedi'i lunio o amgylch yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a helpu i'w hatal rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y dyfodol. Felly, mae pedwar amcan llesiant wedi'u datblygu, sef:

1. Dechrau Gorau mewn bywyd
2. Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus
3. Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
4. Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach

3.3 Mae'r cynllun hwn yn cydnabod yr effaith hirdymor y mae profiadau cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar yn ei chael ar unigolion a theuluoedd ac yn llywio dyfodol plant wrth iddynt dyfu i fyny, eu cynnydd yn yr ysgol, eu gallu i gael swydd, sut y maent yn magu eu plant eu hunain, a'u hiechyd.

3.4 **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) - Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018):** Mae PCC yn nodi pa mor bwysig yw hi i awdurdodau cynllunio ddatblygu dull strategol a hirdymor o ddarparu cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys ysgolion) wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylai cyfleusterau cymunedol barhau i fynd i'r afael â gofynion trigolion yr ardal a gallant gyfrannu at ymdeimlad o le sy'n bwysig i iechyd, llesiant ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu bodolaeth yn elfen allweddol yn aml wrth greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy.

3.5 *Dylunio Cynhwysol:* Mae PCC yn pwysleisio'r angen i ymgorffori dylunio a dulliau creu lleoedd da ym mhob cynnig datblygu. Dylai dylunio da roi lle canolog i bobl yn y broses ddylunio a rhaid hefyd iddo gynnwys darparu mesurau sy'n helpu i leihau'r anghydraddoldeb o ran cael mynediad at

wasanaethau hanfodol, addysg a chyflogaeth a brofir gan bobl heb fynediad at gar.

3.6 *Seilwaith:* Mae seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau fel cyfleusterau addysg, yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n sail i gystadleurwydd economaidd a chyfleoedd i aelwydydd a busnesau gyflawni ffyrdd o fyw a gweithio sy'n ddymunol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Gall seilwaith sydd wedi'i gynllunio'n wael neu sydd wedi'i leoli'n wael waethygu problemau yn hytrach na'u datrys.

3.7 *Cysylltiadau Actif a Chymdeithasol*: Mae Lleoedd Actif a Chymdeithasol PCC yn ceisio mynd ati i greu cymunedau cynaliadwy a chydlynus drwy bolisïau cynlluniau datblygu, gan gynnwys dyraniadau penodol, a phenderfyniadau rheoli datblygu. Yn benodol, bydd polisïau'n: galluogi mynediad cynaliadwy i dai, cyflogaeth, siopa, addysg, iechyd, cymuned, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a seilwaith gwyrdd, gan fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol; Mae'n pwysleisio bod angen i awdurdodau cynllunio, wrth gynllunio a rheoli datblygiadau'r dyfodol, sicrhau bod gan drigolion cymunedau presennol a chymunedau newydd fynediad at swyddi a detholiad priodol o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys hamdden, iechyd ac addysg.

3.8 Mae PCC yn nodi bod rhwymedigaethau cynllunio yn drefniadau defnyddiol i oresgyn rhwystrau a allai fel arall atal caniatâd cynllunio rhag cael ei roi. Gellir defnyddio cyfraniadau i wrthbwyso canlyniadau negyddol, i helpu i ddiwallu anghenion lleol, neu i sicrhau manteision a fydd yn gwneud datblygiad yn fwy cynaliadwy. Mae'n hanfodol bod trefniadau'n deg i'r datblygwr a'r gymuned, bod y broses mor dryloyw â phosibl, a bod cynlluniau datblygu yn rhoi arweiniad ar y mathau o rwymedigaethau y gall y Cyngor eu ceisio.

3.9 **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013:** Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn golygu mai cerdded a beicio yw'r opsiwn a ffefrir ar gyfer teithiau byrrach, yn enwedig teithiau bob dydd, megis yn ôl ac ymlaen i weithle neu sefydliad addysg, neu er mwyn cael mynediad at iechyd, hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau eraill. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi'r llwybrau cerdded a beicio sydd eu hangen i greu rhwydweithiau cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio i allu cyrraedd gwaith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau.

3.10 **Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (2006-2021):** Mae CDLl Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir y Cyngor hyd at 2021. Mae'r polisïau perthnasol yn cynnwys:

- *Polisi COM10 – Darparu Cyfleusterau Addysg a Hyfforddiant*
- *Polisi Strategol SP13 – Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol*
- *Polisi COM9 – Darparu Adeiladau Cymunedol*

- *Polisi Strategol SP14 - Seilwaith*

3.11 Mae ysgolion yn cynnig y cyfle delfrydol i chwarae rôl amlswyddogaethol ac ehangach o lawer yn y gymuned drwy ddiwallu'r casgliad eang o anghenion addysgol sydd gan blant a phobl ifanc yn ystod oriau agor traddodiadol yr ysgol a hefyd gweithredu fel amgylcheddau dysgu a hamdden yn y gymuned, yn enwedig y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Felly, fe'u hystyrir yn asedau sylfaenol o ran cyflawni'r Strategaeth CDLl.

## 4. DARPARIAETH ADDYSG

**4.1 Cynllun Corfforaethol a Chynllun y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd**

4.2 Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022 yn nodi amcanion llesiant allweddol y Cyngor ac yn canolbwyntio ar gyflawni gweledigaeth y Cyngor er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion y sir. Nod y Cynllun Corfforaethol trosfwaol (y Cynllun) yw cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cynllun yn nodi'r tri amcan llesiant canlynol sydd â'r bwriad o wella ansawdd bywyd pobl yn y fwrdeistref sirol:

- Cefnogi economi lwyddiannus
- Helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

4.3 Bydd cyfraniadau addysg a sicrhawyd drwy Adran 106 yn cefnogi'r trydydd amcan yn benodol. Nodir pwysigrwydd cyflawni'r amcan hwn yng Nghynllun y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd hefyd.

**4.4 Cynllun y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd**

4.5 Mae Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn nodi blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r gyfarwyddiaeth, y cyfraniad y bydd y gyfarwyddiaeth yn ei wneud yn y Cynllun Corfforaethol, a sut y caiff y cyfraniad hwn ei fesur.

**4.6 Moderneiddio Ysgolion**

4.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cychwyn ar raglen heriol o foderneiddio ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae creu ysgolion sy'n addas i'r diben ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan eu cymunedau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol. Drwy gydol y broses foderneiddio, cynhelir trafodaethau gyda dysgwyr, ysgolion a'u cymunedau. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i amgylchiadau pob ysgol gyda budd pennaf hirdymor y plant a'r bobl ifanc yn ei hardal yn cael blaenoriaeth tra'n sicrhau bod ansawdd presennol yr addysg yn cael ei gynnal. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion ar ysgolion yng nghyffiniau datblygiadau preswyl newydd yn cael eu hystyried yn ystod y cam ceisiadau cynllunio a bydd hyn yn rhan o'r broses drafod bryd hynny.

**4.8 Dalgylchoedd Ysgolion**

4.9 Mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd ddalgylchoedd daearyddol a ddefnyddir i weinyddu trefniadau derbyn. O'r 66 Ysgol ledled y Fwrdeistref Sirol, mae 5 ysgol cyfrwng Cymraeg, 6 ysgol wirfoddol a gynorthwyir, 1 ysgol wirfoddol a reolir, 2 ysgol arbennig ac mae 1 uned cyfeirio disgyblion ac 1

ganolfan integredig i blant. Oherwydd bod llai ohonynt, ac felly natur fwy gwasgaredig ysgolion fel ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion arbennig, mae ganddynt ddalgylchoedd ehangach.

4.10 Dylid nodi bod y dalgylchoedd diffiniedig ar gyfer ysgolion yn cael eu hadolygu weithiau ac mae'r Cyngor yn argymell bod y datblygwr yn cysylltu â'r Cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddalgylchoedd.

4.11 Er mwyn gwneud defnydd effeithiol o gyfraniadau yn y dyfodol, dylai telerau unrhyw gytundeb Adran 106 yn y dyfodol ganiatáu ar gyfer y ffaith bod dalgylchoedd ysgolion yn newid ac y gellir defnyddio cyfraniadau ar gyfer cyfleusterau addysg o fewn dalgylch unrhyw ysgol ddilynol lle mae'r datblygiad wedi ei leoli adeg eu gweithredu.

4.12 **Capasiti Ysgolion**

4.13 Mae Cylchlythyr Rhif 021/2011 Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' yn disgrifio'r dull o asesu capasiti ysgolion cynradd ac uwchradd a sicrhau niferoedd derbyn priodol o'r capasiti. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru bennu niferoedd derbyn disgyblion (PAN) yn seiliedig ar y fethodoleg hon wrth benderfynu'n flynyddol ar drefniadau derbyn ar gyfer yr ysgolion.

4.14 Mae’r wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â chapasiti pob ysgol gan y Cyngor, ac fe’i defnyddir i benderfynu a oes gwarged neu ddiffyg yn y capasiti sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn ôl dalgylch. Os yw datblygiad yn debygol o roi pwysau ar gapasiti presennol ysgolion mewn dalgylch, bydd y Cyngor yn ceisio negodi cyfraniad ariannol y cytunir arno tuag at ddarparu lleoedd neu gyfleusterau ysgol ychwanegol.

4.15 Mae angen cadw rhai lleoedd sbâr i alluogi ysgolion i ymdopi ag amrywiadau yn nifer y disgyblion mewn grwpiau blwyddyn penodol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer ansefydlogrwydd o ran dewis a galw (e.e. newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y gyfradd genedigaethau, dewis rhieni ac ati.). Mae lefel y lleoedd sbâr sydd angen eu cadw mewn ysgolion yn annhebygol o fod yn fwy na 10%. Felly, byddai unrhyw ysgol sydd wedi llenwi 90% o'i lleoedd yn cael ei hystyried yn un heb unrhyw gapasiti dros ben.

4.16 **Safonau Ysgolion**

4.17 Mae pob ysgol wedi'i hasesu o ran unrhyw fuddsoddiad sylweddol sydd ei angen i'w chodi i safon foddhaol. Mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth am addasrwydd, digonolrwydd a chyflwr adeiladau ysgolion ledled y fwrdeistref sirol. Mae safon adeiladau / cyfleusterau ysgolion yn ystyriaeth ddilys ar gyfer y CCA hyn a thrafodaethau Adran 106 gan y gallai niferoedd ychwanegol o ddisgyblion sy'n cael eu creu gan ddatblygiad newydd waethygu trefniadau i'r fath raddau fel na fyddai'r ysgol unigol yn addas i dderbyn disgyblion ychwanegol. Mae amgylchiadau'n debygol o amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion yn dibynnu ar eu cyfluniad, eu cynllun, eu cyfleusterau a'r defnydd o

ofod mewnol y gallai fod angen eu defnyddio unwaith eto i dderbyn disgyblion newydd.

4.18 Mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 yn disgrifio ac yn cynghori ar fodloni'r safonau gofynnol ar gyfer safle pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n gosod safonau gofynnol ar gyfer pob ysgol a gynhelir bresennol a newydd yng Nghymru ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd ysgolion arbennig nas cynhelir, ac ysgolion annibynnol cymeradwy sy'n addas ar gyfer derbyn plant ag anghenion addysgol arbennig gydymffurfio â rhai o'r safonau sydd ynddynt. Mae'r arolygon a gynhelir gan y Cyngor yn seiliedig ar y canllawiau uchod. Cyfeirir hefyd at ganllawiau cyfredol megis Bwletinau Adeiladu.

## 5. CYFRANIADAU DATBLYGWYR

### 5.1 Trothwyon

5.2 Bydd datblygiadau preswyl sy'n ddigon mawr i roi mwy o bwysau ar y cyfleusterau addysgol y mae'r datblygiad wedi ei leoli yn eu dalgylch yn golygu y bydd y Cyngor yn ceisio lefel briodol o gyfraniad gan y datblygwr i ddarparu'r lleoedd ychwanegol neu i sicrhau bod gofod llawr presennol yn cyrraedd safon foddhaol.

5.3 Ceisir cyfraniadau ar gyfer cyfleusterau addysgol gan bob datblygiad arfaethedig sydd ag enillion net o 5 uned breswyl neu fwy. Yn achos fflatiau, bydd angen cyfraniadau ar gyfer 15 uned neu fwy.

5.4 Ceisir cyfraniadau lle:-

(a) Bydd y disgyblion a allai ddeillio o'r datblygiad yn golygu mynd dros gapasiti dros ben ysgolion lleol yn y dalgylch; neu

(b) Mae'r capasiti dros ben presennol yn bodoli i ddarparu ar gyfer rhai neu bob un o'r disgyblion a allai ddeillio o'r datblygiad, ond mae angen adnewyddu er mwyn gwneud y lleoedd hynny'n 'addas i'w defnyddio'.

5.5 Yr unig fathau o lety a fydd wedi'u heithrio rhag cyfraniadau yw fflatiau un ystafell, anheddau 1 ystafell wely, llety gwarchod neu lety i'r henoed, tai amlfeddiannaeth, gwestai, hosteli a llety myfyrwyr (gan gynnwys ysgolion preswyl, colegau neu ganolfannau hyfforddi).

5.6 Bydd pob datblygiad preswyl sy'n mynd dros y trothwyon uchod yn cael ei asesu i bennu faint o blant a phobl ifanc sy'n debygol o gael eu cynhyrchu o'r datblygiad hwnnw a'i alw posibl a'i effaith bosibl ar ysgolion a chyfleusterau addysg lleol.

### 5.7 Cynnyrch Disgyblion

5.8 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amcangyfrif bod y nifer tebygol o blant a phobl ifanc a gynhyrchir gan ddatblygiad tai arfaethedig yn seiliedig ar y ffactorau cynnyrch disgyblion canlynol:

**Tabl 1: Nifer y plant a gynhyrchir fesul annedd**

| Grŵp Oedran | Nifer y plant a gynhyrchir fesul annedd | |
|---|---|---|
| | Fflatiau | Tai |
| Meithrin (dan 4 oed) | 0.02 | 0.05 |
| Cynradd (4-11) | 0.10 | 0.33 |
| Uwchradd (11-16) | 0.06 | 0.20 |
| Ôl-16 | 0.2 x uwchradd | 0.2 x uwchradd |
| ADY* – Cynradd | 1.5% o gynradd | 1.5% o gynradd |
| ADY* - Uwchradd | 1.5% o uwchradd | 1.5% o uwchradd |

* ADY = Anghenion Dysgu Ychwanegol

5.9 Mae'r niferoedd cynnyrch disgyblion uchod yn seiliedig ar y nifer gwirioneddol sy'n manteisio ar leoedd ysgol o ddatblygiad tai newydd wedi'i gwblhau yn y fwrdeistref, a oedd yn cynnwys darparu Ysgol Gynradd newydd.

5.10 Bydd nifer y disgyblion a gynhyrchir gan ddatblygiad arfaethedig yn cael ei dalgrynnu i fyny neu i lawr i'r disgybl cyfan agosaf, a chaiff ei asesu yn erbyn capasiti'r ysgol (ysgolion) y cynigir y datblygiad tai newydd yn ei dalgylch (eu dalgylchoedd). Bydd y Cyngor yn ystyried nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol (NOR) i asesu a oes unrhyw gapasiti dros ben yn bodoli yn nalgylch(oedd) y datblygiad.

5.11 Yna cyfrifir y lleoedd disgyblion net sydd eu hangen uwchlaw'r capasiti rhagamcanol drwy wrthbwyso cynnyrch disgyblion rhagamcanol datblygiad yn erbyn unrhyw warged presennol mewn lleoedd ysgol. Bydd y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo niferoedd ysgolion ar gael i ddatblygwyr fel rhan o'r cyfiawnhad dros ofyn am gyfraniad ariannol.

5.12 **Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

5.13 Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol yw'r rhai a addysgir naill ai mewn ysgol arbennig neu mewn cyfleuster arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.

5.14 **Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

5.15 Cynhelir gwerthusiad o wahanol leoliadau addysgol (h.y. ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) ar sail y nifer sydd wedi manteisio ar leoedd yn y dalgylch yn y gorffennol a sut y byddai argaeledd lleoedd yn sbarduno dewis rhieni. Os gellir cyfiawnhau angen, neu os yw'r datblygiad yn debygol o roi pwysau ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfraniadau priodol.

5.16 **Costau fesul Lle Disgybl**

5.17 Mae'r costau fesul disgybl yn seiliedig ar gostau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd o dan y rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif.

**Tabl 2: Cost fesul Lle Disgybl**

| Grŵp Blwyddyn | Cost fesul Lle Disgybl |
|---|---|
| Meithrin | £18,599 |
| Cynradd | £18,599 |
| Uwchradd | £29,406 |
| Ôl-16 | £29,406 |
| ADY – Cynradd | £55,797 |
| ADY - Uwchradd | £88,218 |

5.18 Mae'r ffigurau uchod wedi'u profi yn erbyn costau prosiectau adeiladu ysgolion newydd a gwblhawyd yn ddiweddar a byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yng nghostau adeiladu ysgolion. Os bydd adolygiad o'r fath yn golygu bod angen newid y CCA, bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o ddiweddariad ffurfiol i'r CCA (gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus).

5.19 Mae costau safonedig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr arwynebedd mewn adeilad ysgol sydd ei angen fesul disgybl, yn ôl amrediad maint uchaf Bwletin Adeiladu 98 ar gyfer disgyblion uwchradd a Bwletin Adeiladu 99 ar gyfer disgyblion cynradd. Ar ôl pennu maint, mae costau'n cael eu cymhwyso sy'n cyfrif am yr elfennau canlynol:

- Costau adeiladu safonol (yn cynnwys is-strwythur, allanolion a chostau dylunio);
- Dodrefn, ffitiadau ac offer; a
- TGCh

5.20 Nid yw'r costau'n cynnwys costau adeiladu annormal sy'n gysylltiedig â graddiant, halogiad, gwaith amddiffyn rhag llifogydd nac unrhyw waith priffyrdd cysylltiedig y tu allan i ffin yr ysgol.

5.21 **Buddsoddi mewn Llety Ysgol Anfoddhaol**

5.22 Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan ysgol gapasiti o ran arwynebedd llawr, ond gellid ystyried nad yw'r gofod o safon foddhaol ar gyfer disgyblion ychwanegol a grëir gan ddatblygiad. Mewn achosion o'r fath, bydd costau gwella'r arwynebedd llawr hwn i safon dderbyniol yn 65% o gost darparu gofod ychwanegol newydd. Mae hyn yn seiliedig ar Safonau Cost a Maint Llywodraeth Cymru a ryddhawyd i Awdurdodau Lleol yn 2017 a 2018 i'w cymhwyso i brosiectau Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

5.23 **Ysgolion Newydd**

5.24 Os yw datblygiad ar raddfa fawr yn cynhyrchu digon o ddisgyblion i gyfiawnhau ysgol gynradd neu uwchradd newydd, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu'r ysgol o fewn y datblygiad. Os nad yw'n bosibl yn ffisegol i leoli'r cyfleuster ar y safle, bydd rhaid i'r datblygwr wneud cyfraniad ariannol cyfatebol (e.e. gwerth tir a chostau adeiladu) tuag at ei ddarparu oddi ar y safle.

5.25 **Defnyddio Cyfraniadau**

5.26 Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau ar gyfer pob grŵp oedran ar gyfer pob ysgol a gynhelir lle mae'r angen yn codi. Gellir defnyddio cyfraniadau ar gyfer:

- darparu ystafelloedd dosbarth newydd;
- gwella ac adnewyddu cyfleusterau presennol er mwyn darparu capasiti ychwanegol;
- darparu adnoddau ychwanegol neu welliannau i adnoddau presennol sy'n ofynnol yn sgil y galw ychwanegol;
- darparu unrhyw fesurau ysgol interim angenrheidiol a allai, mewn rhai amgylchiadau, fod yn ofynnol pan nad yw'n bosibl sicrhau y bydd mesurau parhaol ar waith mewn pryd.

## 6. CYFRIFO'R GOFYNIAD

6.1 **Fformiwla cyfraniadau**

6.2 Gan ddefnyddio'r canllawiau hyn bydd y cyfrifiadau tuag at ddarparu lleoedd neu fuddsoddiad ychwanegol sydd eu hangen i wneud yr ysgol yn addas ar gyfer disgyblion ychwanegol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

**(Nifer yr anheddau x Nifer y plant a gynhyrchir fesul annedd)**

**X**

**Cost fesul lle disgybl**

**+**

**Unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol***

**=**

**Cyfanswm cost darparu lleoedd ysgol neu fuddsoddiad sydd ei angen i wneud yr ysgol yn addas i dderbyn disgyblion ychwanegol**

*Gweler Atodiad 1 am syniad o gostau ychwanegol posibl

6.3 **Enghraifft wedi'i chyfrifo**

6.4 Mae'r canlynol yn enghraifft wedi'i chyfrifo sy'n defnyddio'r fformiwla uchod ar gyfer datblygu 500 o dai mewn ardal heb unrhyw gapasiti Ysgol Gynradd dros ben:

**Nifer yr anheddau = 500**

**Nifer y plant oedran cynradd a gynhyrchir gan bob annedd = 0.33**
**Nifer y plant ADY oed cynradd = 1.5% o'r cyfanswm**

**Cost fesul lle disgybl = £18,599**
**Cost fesul lle disgybl ADY = £55,797**

**500 x 0.33 = 165 o ddisgyblion**
**165 x 1.5% (ADY) = 2.47 (wedi'i dalgrynnu i lawr i 2)**
**165 – 2 = 163 o ddisgyblion a 2 ddisgybl ADY**

**163 x £18,599 = £3,031,637**
**2 x £55,797 = £111,594**

**CYFANSWM Y CYFRANIAD = £3,143,231**

## 7. GWEINYDDU'R POLISI

7.1 **Gweithredu'r Polisi**

7.2 Mae gweithredu strategaeth y CCA yn digwydd drwy nifer o weithdrefnau sydd fel a ganlyn yn fras:

7.3 **Y Cam Cyn Ymgeisio**

7.4 Mae darpar ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau tai yn cael eu cynghori'n gryf i gysylltu ag Adran Gynllunio'r Cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio. Ymhlith materion eraill, bydd hyn yn galluogi swyddog o'r adran Cynllunio Datblygiadau i gysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd ac amlinellu gofynion y Cyngor mewn perthynas ag addysg a chyfraniadau eraill o dan Adran 106. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau addysg yn dod i'r amlwg cyn, neu yn ystod, ymarfer gwerthuso safle cychwynnol y datblygwr.

7.5 **Y Cam Ymgeisio**

7.6 Os na fydd trafodaethau cyn ymgeisio yn cael eu cynnal, bydd ymgeiswyr ar gyfer datblygiadau tai yn cael gwybod am y gofynion ar gyfer darparu cyfleusterau addysg ar ôl cyflwyno cais cynllunio. Fel rhan o unrhyw gais am rwymedigaeth gynllunio, bydd ymgeisydd yn cael gwybodaeth am:

- Nifer y plant a allai ddeillio o'r datblygiad.
- Capasiti'r ysgolion lleol perthnasol a nifer y disgyblion ar y gofrestr ysgol ar hyn o bryd.
- Swm y cyfraniad ariannol y bydd ei angen i greu lleoedd ysgol ychwanegol.
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol Adran 106 gyda'r Cyngor i sicrhau bod cyfraniad yn cael ei wneud tuag at gyfleusterau addysg.

7.7 **Ceisiadau Amlinellol**

7.8 Yn achos ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol gyda'r Cyngor o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Pan fydd y manylion sy'n ymwneud â'r mathau o dai a'u nifer i'w darparu fel materion a gedwir yn ôl, bydd angen i gytundeb Adran 106 yn ystod y cam amlinellol fod yn seiliedig ar fformiwla, er mwyn gallu pennu'r union gyfraniadau pan gyflwynir rhagor o fanylion.

7.9 **Cytundebau Adran 106**

7.10 Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Adran 12 o Ddeddf Cynllunio ac Iawndal (1991), a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd), yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer

rhwymedigaethau cynllunio. Rhaid i unrhyw rwymedigaeth fodloni'r tri phrawf canlynol:

1) Mae'n angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;

2) Mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; a

3) Mae'n cyfateb yn deg ac yn rhesymol o ran maint a math i'r datblygiad.

7.11 At hynny, dylid nodi bod Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (Rheoliad 123) yn cyfyngu ar gyfuno cyfraniadau Adran 106. Mae rheoliad 123 yn nodi na all rhwymedigaeth Adran 106 fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio os oes pump neu fwy o rwymedigaethau cynllunio ar wahân eisoes yn bodoli ar gyfer prosiect seilwaith unigol penodol (yr ymrwymwyd iddo ers 6 Ebrill 2010). Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion cyfredol o'r holl gytundebau Adran 106 ar y Gofrestr Gynllunio. Mewn trafodaethau gyda datblygwyr, bydd y Cyngor yn ystyried a yw'r cyfyngiad cyfuno yn berthnasol ac yn ceisio sicrhau y gellir lliniaru'r datblygiad yn briodol drwy rwymedigaethau cynllunio, tra'n sicrhau na chaiff y cyfyngiad cyfuno ei dorri. Os nad yw datblygiad yn gallu darparu seilwaith priodol oherwydd y cyfyngiad cyfuno, gall hyn ei wneud yn annerbyniol o safbwynt cynllunio.

7.12 O ystyried yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) a'r pwerau datganoledig a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru i addasu is-ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2018, mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd cynnydd o ran Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei roi o'r neilltu nes bod cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106 i sicrhau'r seilwaith angenrheidiol.

7.13 **Trafodaethau gyda Datblygwyr**

7.14 Bydd trafodaethau gyda datblygwyr ar gytundebau cynllunio yn cynnwys:

- y prosiect(au) y gellir defnyddio eu cyfraniadau ar ei gyfer (eu cyfer);
- amseriad talu cyfraniadau y cytunwyd arnynt; ar safleoedd mawr gellir cyflwyno taliadau fesul tipyn drwy gytundeb â'r awdurdod;
- pryd y bydd cyfraniadau'n cael eu gwario; bydd hyn o fewn 5 mlynedd i dderbyn y taliad terfynol fel arfer.

7.15 Er mwyn gwneud defnydd effeithiol o gyfraniadau yn y dyfodol, dylai telerau unrhyw gytundeb Adran 106 yn y dyfodol ganiatáu ar gyfer y ffaith bod dalgylchoedd ysgolion yn newid ac y gellir defnyddio cyfraniadau ar gyfer cyfleusterau addysg o fewn dalgylch unrhyw ysgol ddilynol lle mae'r datblygiad wedi ei leoli adeg eu gweithredu.

7.16 **Hyfywedd**

7.17 Gall rhai cynigion fod yn gymwys i gael cyfraniadau gostyngol neu lai os gellir profi y bydd gwerth y cyfraniad sy'n ofynnol yn peryglu hyfywedd cynnig.

Disgwylir y bydd dull tryloyw ac agored o drafod yn cael ei gefnogi gan ddatblygwyr/perchnogion, er mwyn sicrhau rhwymedigaethau cynllunio ar lefelau priodol i liniaru effaith y datblygiad, tra'n sicrhau bod y datblygiad yn parhau'n hyfyw. Bydd unrhyw wybodaeth ariannol a ddarperir gan ddatblygwr fel rhan o'r broses 'dryloyw ac agored' hon yn cael ei hystyried yn gyfrinachol.

7.18 Bydd y Cyngor yn craffu ar bob arfarniad ariannol 'tryloyw ac agored', a allai arwain at ofyn cwestiynau ychwanegol i'r ymgeisydd. Bydd disgwyl i ddatblygwyr brofi i'r Cyngor bod cynllun yn anhyfyw yn ariannol. Os na all y partïon gytuno, neu drwy gydgytundeb ymlaen llaw, bydd y Cyngor yn cyfarwyddo'r Prisiwr Dosbarth i gynnal asesiad annibynnol o hyfywedd cynllun. Yr ymgeisydd/perchennog/datblygwr fydd yn talu am benodi Prisiwr Dosbarth. Dylai'r ddau barti dderbyn penderfyniad y Prisiwr Dosbarth wrth bennu hyfywedd. Fodd bynnag, ni fyddai'r Prisiwr yn gweithredu fel cymrodeddwr. Yr Awdurdod Lleol a'r tirfeddiannwr, yr ymgeisydd a/neu'r datblygwr sy'n gyfrifol o hyd am ddatrys yr anghydfod.

7.19 Beth bynnag fo canlyniad arfarniad hyfywedd, efallai y bydd angen i'r Cyngor sicrhau lefel benodol o gyfraniadau gan ddatblygwyr, er mwyn lliniaru effaith y datblygiad. Gallai amgylchiadau o'r fath fod lle byddai methu â gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer rhai eitemau seilwaith yn gwneud y datblygiad yn annerbyniol o ran cynllunio, yn groes i bolisi ac yn faich annerbyniol. Bydd hyn yn cael ei asesu fesul achos. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai methu â sicrhau'r cyfraniadau, y bernir eu bod yn angenrheidiol i gefnogi'r cynnig, arwain at argymhelliad i wrthod.

7.20 **Penderfyniadau Apêl Cynllunio**

7.21 Os gwneir apêl am resymau ac eithrio darparu cyfraniad addysg, dylai'r ymgeisydd sicrhau bod Ymgymeriad Unochrog sydd wedi'i eirio'n briodol yn cael ei lofnodi cyn penderfynu ar unrhyw apêl, i wneud darpariaeth ar gyfer y cyfraniad priodol. Byddai methu â darparu ymgymeriad o'r fath yn debygol o arwain at y Cyngor yn gwrthwynebu ar sail capasiti addysg mewn apêl.

7.22 **Dyddiad Cyflwyno**

7.23 Bydd y canllawiau yn y ddogfen hon yn cael eu cymhwyso i geisiadau cynllunio a gyflwynir ar neu ar ôl y dyddiad y caiff y CCA eu mabwysiadu'n ffurfiol (i'w gadarnhau unwaith y bydd y CCA yn destun ymgynghoriad). Ni fyddant yn berthnasol i geisiadau am faterion a gedwir yn ôl neu ganiatâd cynllunio amlinellol a roddwyd cyn y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, bydd unrhyw ganiatâd a roddwyd cyn mabwysiadu'r ddogfen CCA yn cael ei ystyried o fewn cwmpas y CCA pe bai cais i'w adnewyddu yn cael ei gyflwyno. Bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol a byddant yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath.

# ATODIAD A

# Costau Cysylltiedig Ychwanegol

Mae Costau Cysylltiedig Ychwanegol Posibl yn cynnwys y canlynol:

| |
|---|
| **Caffael tir** |
| **Gofynion seilwaith cysylltiedig (e.e. seilwaith priffyrdd mawr neu ofynion lefelu tir gormodol)** |
| **Llety dros dro** |
| **Cost Gychwynnol Cludiant i'r Ysgol am hyd at dair blynedd (tra bod llety newydd yn cael ei adeiladu)** |
| **Rheoliadau Adeiladu** |
| **Ymchwiliadau Safle Cychwynnol** |

Mae'r Tabl uchod yn amlygu'r costau cysylltiedig ychwanegol hynny y cyfeirir atynt a allai godi o reidrwydd ac a allai fod yn rhan o'r cyfraniadau a geisir gan y datblygwr gan y Cyngor. Bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi yn cael eu cyfrifo fesul achos.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB